

# Gwerthusiad o'r Opsiynau Rhestr Hir

**Allwedd**

- + Hyder y gallai'r opsiwn gyflawni'r Ffactor Llwyddiant Critigol, er bod angen datblygiad pellach.
- o Mae angen datblygu'r opsiwn ymhellach i ddeall a allai gyflawni'r Ffactor Llwyddiant Critigol.
- Ceir dealltwriaeth briodol er mwyn dod i'r casgliad yn hyderus na fyddai'r opsiwn yn cyflawni'r Ffactor Llwyddiant Critigol.

Area	No.	Teitl yr Opsiwn	Disgrifiad o'r opsiwn	Ffit Strategol	Gwerth am Arian Posibl	Capasiti a Gallu Cyflenwr	Fforddiadwyedd Posibl	Cyflawnadwyedd Posibl	Ar y rhestr fer	
I Gyd	1	Cerdded i ffwrdd	Llinell sylfaen safonol orfodol neu senario cyfeirio i'w ystyried. Mae'n golygu 'gwneud dim h.y. rhoi'r gorau i'r holl weithgareddau presennol a cherdded i ffwrdd'						Gorfodol	✓
	2	Busnes fel arfer	Llinell sylfaen safonol orfodol neu senario cyfeirio i'w ystyried. Mae'n golygu 'cynnal y trefniadau presennol'						Gorfodol	✓
Afonydd Gorllewin	3	Amddiffynfeydd Uniongyrchol - Waliau Llifogydd/Argloddiau	Amddiffynfeydd lleol yng nghanol y dref lle gallant ddarparu amddiffyniad uniongyrchol rhag llifogydd afon.	-	o	+	o	+		✗
	4	Dargyfeirio Afon	Ailbroffilio graddiant Afon Rhyd-hir fel ei bod yn dargyfeirio llifoedd i'r arfordir mewn lleoliad newydd i'r gorllewin o'r dref	o	o	+	o	o		✓
	5	Gor-bwmpio ar Afon Rhyd-hir ac Afon Penrhos	Gorsafoedd pwmpio cyfaint uchel i'w hadeiladu ym Mhwllheli, a ddyluniwyd i bwmpio llifoedd afon uchel i'r môr pan fyddai llanw uchel fel arall yn achosi effaith i fyny'r afon.	o	-	+	-	-		✗
	6	Storio i fyny'r afon	Cyflwyno newidiadau yn y tir i fyny'r afon i greu mwy o gapasiti i storio dŵr llifogydd yno.	o	-	+	o	-		✗
Arfordir Gorllewin	7	Ail-alinio Amddiffynfeydd - Arfordirol	Symud amddiffynfeydd arfordirol newydd ychydig i'r tir ond parhau i aros yn gyson â'r aliniad presennol ar hyd ffrynt arfordirol y gorllewin, gan ganiatáu lle i'r arfordir atchwelyd.	+	o	+	o	+		✓
	8	Ail-alinio Amddiffynfeydd - Mewndirol	Amddiffynfeydd arfordirol newydd i'r gorllewin o'r dref, yn berpendicwlar i'r ffrynt arfordirol sy'n caniatáu i'r arfordir atchwelyd.	+	o	+	o	+		✓
	9	Ailgyflenwi'r Traeth/Tywod	Cyflwyno cyfaint sylweddol o waddodion neu dywod ar hyd ffrynt y gorllewin i gynyddu i ba raddau y gall y twyni a'r lan weithredu fel rhwystr i ddigwyddiadau stormydd.	o	-	-	-	-		✗
	10	Amddiffynfeydd Peirianeg Caled	Amddiffynfeydd peirianeg caled megis arfogaeth craig neu rip-rap i amddiffyn y draethlin rhag sgwriad ac erydu tonnau.	o	-	+	o	o		✗
	11	Argorau a Morgloddiau	Rhwystrau caled (craig neu bren fel arfer) a ddyluniwyd i helpu i ddal gwaddodion a gwarchod y traeth, gan wella amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu.	o	-	+	o	o		✗
Harbwr	12	Waliau Harbwr wedi'u Codi	Codi uchder amddiffynfeydd o amgylch yr harbwr lle bo angen i reoli'r perygl o lifogydd o ddigwyddiadau stormydd yn y dyfodol.	+	o	+	+	+		✓
	13	Porth Harbwr Newydd	Rhwystr rheoledig wrth fynedfa'r harbwr i greu capasiti o fewn yr harbwr i reoli llifogydd afon ac, yn yr un modd, i reoli peryglon llifogydd llanwol o ymchwyddiadau storm.	+	o	o	o	o		✓
Arfordir Dwyrain	14	Grwynau a Morgloddiau	Rhwystrau caled (craig neu bren fel arfer) a ddyluniwyd i helpu i ddal gwaddodion a gwarchod y traeth, gan wella amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu.	o	-	+	o	o		✗
	15	Amddiffynfeydd Peirianeg Caled	Amddiffynfeydd peirianeg caled megis arfogaeth craig neu rip-rap i amddiffyn y draethlin rhag sgwriad ac erydu tonnau.	o	-	+	o	o		✗
	16	Ailgyflenwi'r Traeth/Tywod	Cyflwyno cyfaint sylweddol o waddodion neu dywod ar hyd ffrynt y dwyrain i gynyddu i ba raddau y gall y twyni a'r lan weithredu fel rhwystr i ddigwyddiadau stormydd.	o	-	-	-	-		✗
Afonydd Dwyrain	17	Amddiffynfeydd Uniongyrchol - Waliau Llifogydd/Argloddiau	Codi amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Abererch, gan ddarparu llinell amddiffyn uniongyrchol yn erbyn llifogydd o Afon Erch.	+	o	+	o	+		✓
	18	Storio i fyny'r afon	Cyflwyno newidiadau yn y tir i fyny'r afon, i'r gogledd o Abererch, i greu capasiti i storio dŵr llifogydd yno.	o	-	+	o	-		✗
	19	Gwelliannau Trawsgludo'r Cwrs Dŵr	Cyflwyno ceuffosydd newydd i lawr yr afon o Abererch i wella llifoedd ymlaen a lleihau'r effaith gynhoi.	-	o	+	o	o		✗